GORFFENNAF 2026

UNDEB YR ATHRAWON CYMRU
NASUWT THE TEACHERS' UNION

# DOGFEN FRIFFIO

## CYFLENWI AC AMSER DIGYSWLLT

**Mae NASUWT Cymru yn ymwybodol bod gan aelodau amser digyswllt sy'n ychwanegol at yr hyn sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer amser CPA. Weithiau mae'r amser digyswllt hwn yn cael ei gymryd ar gyfer Cyflenwi. Mae'r ddogfen hon yn egluro'r sefyllfa gytundebol ar Gyflenwi i athrawon yng Nghymru.**

### 'PRIN GYFLENWI'

Mae Prin Gyflenwi yn rhan annatod o ryddhau athrawon a phenaethiaid o dasgau nad oes angen eu sgiliau a'u harbenigedd proffesiynol i'w cyflawni, ac yn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau craidd o addysgu ac arwain, a rheoli addysgu a dysgu.

Ar gyfer athrawon yn gweithio yng Nghymru, mae'r *Ddogfen Cyflog Ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru)* yn nodi:

*'Dim ond ar adegau prin y dylid gofyn i athrawon gyflenwi yn unol â pharagraff 50.7, a dim ond o dan amgylchiadau annisgwyl (nid yw hyn yn gymwys i athrawon a gyflogir yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn darparu gwasanaeth cyflenwi o'r fath).'*

Mae hyn yn berthnasol i bob athro, gan gynnwys penaethiaid, athrawon ar y raddfa arweinyddiaeth ac athrawon rhan-amser, boed nhw yn gyflogedig gan ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol neu gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig.

Felly, dylai ysgolion gael system gadarn ar waith i sicrhau bod athrawon yn anaml yn cyflenwi dros gydweithwyr absennol a, hyd yn oed wedyn, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol nad ydynt yn 'rhagweladwy', fel y rhai a all ddigwydd pan fo sefyllfa o argyfwng wirioneddol.

O ystyried yr uchod, mae'r Undeb yn mynnu bod y mwyafrif llethol o ddigwyddiadau sy'n digwydd mewn ysgolion yn rhagweladwy. Er enghraifft, byddai'r gofyniad i gyflenwi oherwydd bod staff yn absennol ar drip ysgol neu'n mynychu cyfarfodydd yn amlwg wedi'i gynllunio ymlaen llaw ac felly'n rhagweladwy.

Yn ogystal, gellir gweld tywydd garw neu amodau traffig a all effeithio ar bresenoldeb athrawon fel digwyddiadau rhagweladwy, yn enwedig ar adegau penodol o'r flwyddyn.

Mae absenoldeb dyddiol staff oherwydd afiechyd hefyd yn rhagweladwy. Dylai ysgolion gyflogi digon o 'Gynorthwywyr Cyflenwi' i sicrhau bod y gofyniad dyddiol hwn yn cael ei fodloni a chyflogi Staff Cyflenwi pan fo angen.

Felly, ni ddylai'r sefyllfaoedd hyn ysgogi'r angen i athrawon gyflenwi o dan y darpariaethau 'prin gyflenwi' y cyfeirir atynt uchod.

## DEFNYDDIO AMSER DIGYSWLLT AR GYFER CYFLENWI

Os oes gan athro amser digyswllt yn ychwanegol i amser CPA, ni ellir defnyddio hwn ar gyfer Cyflenwi oni bai bod yr athro wedi'i 'gyflogi'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben darparu'r fath gyflenwi.'

Gellid trin yr amser hwn fel '**Amser a Enillwyd**'.

## AMSER A ENILLIR A PHRIN GYFLENWI

Yn ystod y flwyddyn academaidd, gellir rhyddhau athrawon o unrhyw addysgu pan maent â dosbarthiadau / grwpiau arholiadau lle mae'r disgyblion ar gyfnod astudio neu mewn cyfnod arholiadau. Cyfeirir at hyn fel amser a enillir.

Yn ystod amser a enillir, dim ond gweithgareddau o'r rhestr isod y mae'n ofynnol i athrawon eu gwneud, a fu unwaith yn Adran 4 o'r Ddogfen Amodau Gwaith Athrawon:

- datblygu / diwygio deunyddiau cwricwlwm adrannol / pwnc, cynlluniau gwaith, cynlluniau gwersi a pholisïau i baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Gall hyn gynnwys canfod deunyddiau priodol i aelodau eu cyflawni i staff cyflenwi a / neu oruchwylwyr cyflenwi;
- cynorthwyo cydweithwyr mewn gweithgareddau addysgu ar y cyd priodol a drefnwyd ymlaen llaw;
- cymryd grwpiau o ddisgyblion ar gyfer cefnogi dysgu ychwanegol;
- cefnogi disgyblion penodol gyda'u gwaith cwrs;
- ymgymryd â gweithgareddau hefo disgyblion sydd yn trosglwyddo o un flwyddyn i'r llall, neu o'r ysgolion cynradd; a
- lle mae gan yr ysgol bolisi ar gyfer rhyddhau'r holl staff ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) o fewn y diwrnod ysgol.

Caiff y defnydd o amser a enillir ei ddiffinio er mwyn osgoi gweld athrawon yn cael eu cyfeirio i ymgymryd â gweithgareddau yn ystod yr amser hwn sydd ddim angen sgiliau a galluoedd athrawon cymwys i'w gyflawni, ac i'w galluogi nhw i ganolbwyntio ar dasgau sy'n gwella addysgu a dysgu.

Efallai y bydd gofyn i aelodau ddefnyddio peth amser a enillir i gyflenwi. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath, dim ond yn anaml y dylai hyn ddigwydd ac mewn amgylchiadau annisgwyl.

## DEFNYDDIO AMSER DIGYSWLLT FEL CPA

Dylid cofio mai isafswm yw 10% o amser CPA. Mae NASUWT yn ystyried ei bod yn arfer da dyfarnu cymaint o amser CPA â phosibl i leihau llwyth gwaith athrawon a gwella lles. Gallai arweinwyr ysgolion hefyd ystyried dyfarnu amser CPA ychwanegol dros dro i gwmpasu:

- cymwysterau newydd;
- staff sy'n addysgu y tu allan i'w harbenigedd pwnc; a
- pynciau ymarferol lle nad oes cymorth technegol ar gael.

## PRIN GYFLENWI A NEWIDIADAU I'R AMSERLEN

Dim ond pan fo rhesymau addysgol cadarn dros wneud hynny y dylid gwneud amrywiadau i'r amserlen.

Felly, dim ond yn anaml y dylai amrywiadau fod ac ni ddylai ysgolion geisio eich ail-amserlennu na'ch ail-ddynodi o fewn y flwyddyn academaidd yn ystod amser a enillwyd er mwyn osgoi torri'r darpariaethau Prin Gyflenwi.

Os cynigir newidiadau i'ch amserlen neu i amserlen grŵp o athrawon ac na roddir unrhyw resymau addysgol cadarn dros y newid, dylech geisio cyngor ac arweiniad pellach gan yr Undeb.

Ac eithrio athrawon sy'n cael eu cyflogi'n gyfan gwbl neu'n bennaf i gyflenwi, gan gynnwys athrawon cyflenwi, ni ddylid disgwyl i athrawon gyflenwi'n rheolaidd dros gydweithwyr absennol, ac ni ddylid disgwyl iddynt addysgu disgyblion nad ydynt wedi'u neilltuo i'w haddysgu, h.y. disgyblion nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer gwersi wedi'u hamserlennu gyda nhw, dosbarthiadau wedi'u cyfuno neu pan gesglir llawer i ddosbarth at ei gilydd.

Nid yw rhannu dosbarthiadau neu gyfuno dosbarthiadau yn ymateb priodol lle mae hyn yn arwain at ofyn i athro gyflenwi am absenoldeb, o ystyried nad yw cyflenwi yn ddefnydd effeithiol o amser athro.

## ASESIADAU RISG A PHRIN GYFLENWI

Dylai asesiadau risg sefydlu sut mae ysgol am ddelio â'r mater o lefelau staff peryglus o isel oherwydd absenoldeb, yn enwedig yn ystod adegau penodol o'r flwyddyn, e.e. ffliw tymhorol yn ystod misoedd y gaeaf.

Lle bo'n briodol, rhaid i gyflogwyr ddangos eu bod wedi diweddaru eu hasesiadau risg mewn ymgynghoriad â staff ac undebau llafur, gan gynnwys eu rhwymedigaethau cyfreithiol i gymryd pob cam rhesymol ymarferol i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles staff a disgyblion.

Wrth ddelio â lefelau staffio isel, dylai ysgolion gadw'r opsiwn i anfon disgyblion adref lle na ellir cynnal y ddarpariaeth yn ddiogel.

Os oes angen cyngor neu gymorth pellach arnoch, cysylltwch â'r NASUWT.

**TEITHIAU YSGOL A PHRIN GYFLENWI**

Er y gall ymweliadau addysgol fod o fudd i addysg a datblygiad plant a phobl ifanc, mae'r rhain yn weithgareddau wedi'u cynllunio ymlaen llaw. O'r herwydd, ni ddylid disgwyl i athrawon gyflenwi dros gydweithwyr sy'n absennol ar drip ysgol oni bai bod argyfwng neu amgylchiad annisgwyl yn codi o ganlyniad.